BT Group

In partnership with AbilityNet

# Lawrlwytho apiau: Dyfeisiau Android

**Mae ap yn dalfyriad o ‘applications’ – rhaglenni y gallwch eu lawrlwytho i ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen i’ch helpu i wneud pethau.**

**Mae yna apiau ar gyfer unrhyw beth bron: bancio, gweld beth yw’r tywydd, chwarae gemau: unrhyw beth y gallwch ei enwi, bydd ap ar ei gyfer.**

**Nid yn unig maen nhw’n ffordd wych o wneud eich bywyd bob dydd ychydig yn haws, ond gallwch hefyd fwynhau eich hoff hobïau ar flaen eich bysedd, gan roi mwy o amser rhydd i chi.**

**Bydd y canllaw hwn yn dangos i chi sut i lawrlwytho apiau i ddyfais Android (e.e. Samsung, Google Pixel, Doro, Nokia). Os oes gennych ddyfais Apple, mae gennym ganllaw ar gyfer hynny, sydd ar gael yn bt.com/seniorskills. Gall eich dysgwr glicio ar y ddolen hon, neu os yw’r ddalen wedi’i hargraffu, gallant deipio ym mar chwilio eich porwr gwe.**

## Beth fyddwch chi’n ei ddysgu

1. Sut i chwilio am apiau
2. Sut i lawrlwytho a gosod ap o ‘r Play Store

### Sut i chwilio am apiau

1. I ddechrau, chwiliwch am yr eicon Play Store – dyma’r siop ar-lein ar gyfer popeth sy’n ymwneud ag apiau.

   Mae’n edrych fel hyn.
2. Pwyswch neu cliciwch ar yr eicon Play Store i’w agor.
3. Cliciwch ar y bar chwilio.

   
   
4. Teipiwch enw’r ap rydych yn chwilio amdano (e.e. BBC Tywydd neu ‘tywydd’).
5. Pwyswch neu cliciwch ar y botwm ‘GET’ i lawrlwytho’r ap. Gall hyn gymryd ychydig funudau.
6. Ar ôl ei lawrlwytho, bydd yr ap yn ymddangos ar eich sgrin.
7. Pwyswch neu cliciwch ar eicon yr ap i’w agor a dechrau arni.
8. Gallai fod angen i chi greu mewngofnod ar gyfer yr ap – cofiwch ddefnyddio cyfrinair unigryw y gallwch ei gofio, ond a fyddai’n anodd i rywun arall ei ddyfalu.
9. Treuliwch rywfaint o amser yn ymgyfarwyddo eich hun gyda’r ap i ddysgu sut mae’n gweithio.

BT Group In partnership with AbilityNet

## Lawrlwytho apiau: dyfeisiau Android parhad

### Dyma rai apiau y gall eich dysgwr roi cynnig arnynt:

WhatsApp

sy'n eich galluogi i anfon a derbyn negeseuon am ddim drwy'r rhyngrwyd

YouTube

sy'n eich galluogi i wylio ystod o fideos ar-lein am ddim

Tywydd y BBC Weather

Cadw golwg ar y rhagolygon diweddaraf

Ap y GIG

edrych ar eich cofnodion meddygol a threfnu apwyntiadau gyda'ch meddyg teulu

Google Maps

Dim mwy o A-Y! Darganfyddwch lle'r ydych chi neu sut i gyrraedd lle'r ydych chi'n mynd ar flaenau eich bysedd.

**Gwyliwch – nid yw pob ap am ddim**

Er y gallwch lawrlwytho llawer o apiau am ddim, mae rhai yn costio arian ac mae rhai'n dechrau fel cyfnod prawf am ddim cyn y bydd angen talu tanysgrifiad. Bydd y pris bob amser yn cael ei arddangos wrth yr ap yn y Play Store. Os ydych wedi nodi eich manylion banc wrth osod eich dyfais, efallai y codir tâl yn awtomatig arnoch am lawrlwytho'r apiau hyn.
Mae llawer ohonynt hefyd yn cynnwys costau / pryniannau yn yr ap, felly cadwch olwg am y rhain: gofynnwch am gyngor ffrind/perthynas cyn lawrlwytho ap.

### Dolenni i ddysgu pellach

Nawr eich bod wedi lawrlwytho ambell ap, mae'n amser gweld beth arall gallwch chi ei wneud gyda'ch dyfais. I weld ein taflen ffeithiau ar ffrydio rhaglenni teledu neu wrando ar lyfrau llafar, gallwch chi glicio'r ddolen hon neu deipio'r cyfeiriad yn eich bar chwilio: bt.com/seniorskills.